



Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru

Further Mathematics Support Programme Wales

Dydd Mercher 9^{fed} o Fawrth 2022

Annwyl ,

Pam cynnig Mathemateg Bellach?

Mathemateg yw'r pwnc Safon Uwch mwyaf poblogaidd o bell ffordd yng Nghymru. Mae o fudd i fyfyrwyr drwy wneud iddynt ddysgu meddwl yn rhesymegol ac yn systematig, gan arwain at swyddi diddorol sy'n talu'n dda ac yn cefnogi llawer o feysydd astudio eraill. **Mae Mathemateg Bellach Safon Uwch yr un mor fuddiol.** Mae saith o'r prifysgolion gorau angen Mathemateg Bellach ar gyfer eu cyrsiau Mathemateg, ac wyth arall yn lleihau eu gofynion gradd mynediad ar gyfer myfyrwyr Mathemateg Bellach. Mae hyd yn oed rhai cyrsiau Cyfrifiadureg, Peirianeg ac Economeg yn recriwtio'n bennaf o blith myfyrwyr Mathemateg Bellach, ac mae mwy o brifysgolion yn ei argymhell fel cymhwyster defnyddiol. Mae myfyrwyr Mathemateg Bellach hefyd yn ei chael hi'n haws trosglwyddo i'r brifysgol. Mae ysgolion sy'n cynnig Mathemateg Bellach Safon Uwch yn arfogi eu myfyrwyr i lwyddo.

Yn ffodus, yng Nghymru, gall pob myfyriwr astudio Mathemateg Bellach Safon Uwch os yw eu hysgolion yn eu galluogi a'u hannog i wneud hynny. Mae'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach yng Nghymru, a sefydlwyd ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu hyfforddiant i fyfyrwyr mewn ysgolion lle na chynigir Mathemateg Bellach ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn darparu Dysgu Proffesiynol ac Adnoddau AM DDIM gan alluogi athrawon ac ysgolion i ddatblygu eu darpariaeth fewnol eu hunain o TGAU hyd at Fathemateg Bellach. Mae ysgolion sy'n cynnig Mathemateg Bellach yn gallu recriwtio athrawon mathemateg sydd â'r wybodaeth bynciol ddyfnaf ac angerdd am eu pwnc, sy'n gallu ysbrydoli eu myfyrwyr.

Yn amlwg, nid yw brwdfrydedd dros unrhyw bwnc yn dod i fodolaeth yn sydyn wedi'i ffurfio'n llawn pan fydd myfyrwyr yn dewis eu pynciau Safon Uwch. Gan fod angen anogaeth o oedran cynnar, rydym felly hefyd yn cynnig gweithgareddau cyfoethogi AM DDIM sy'n gwneud mathemateg yn ystyrion ac yn hwyl i fyfyrwyr is i lawr yr ysgol ac mewn ysgolion cynradd. Mae crynodebau wedi'u hamgáu – mae rhagor o fanylion i'w cael ar ein gwefan neu drwy ysbrydlu â ni.

Byddem yn falch iawn o'ch cefnogi i gryfhau eich darpariaeth Mathemateg Bellach ac annog eich myfyrwyr i astudio Mathemateg Bellach Safon Uwch. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod i gychwyn y sgwrs, neu edrychwch ar ein gwefan <http://furthermaths.wales/cy/>. Yn ail, p'un a yw eich ysgol yn cynnig Mathemateg Bellach ai peidio, hoffem eich annog i weithio gyda ni i ddatblygu eich cwricwlwm ymhellach gyda'r digwyddiadau cyfoethogi niferus a ddarparwn.

Yr eiddoch yn gywir,
Tîm RhGMBC

Ystafell 103, Y Ffowndri Cyfrifiadurol, Prifysgol Abertawe, Campws y Bae, Abertawe, SA1 8EN
rhgmbcymru@swansea.ac.uk mathsbellach.cymru @RhGMC_FMSPW 01792 606845
Room 103, Computational Foundry, Swansea University, Bay Campus, Swansea, SA1 8EN
fmspwales@swansea.ac.uk furthermaths.wales @RhGMC_FMSPW 01792 606845



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Rheolir gan Brifysgol Abertawe, Sefydliad Gwyddorau
Cyfrifiadurol a Mathemategol Cymru
Managed by Swansea University, Wales Institute
of Mathematical and Computational Sciences



Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru

Further Mathematics Support Programme Wales

Mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn cynnig pum prif elfen o gefnogaeth:

Hyfforddiant Mathemateg Bellach RhGMBC

Caniatáu i fyfyrwyr nad yw eu hysgolion yn cynnig Mathemateg Bellach Safon Uwch i'w hastudio. Cefnogaeth i ysgolion sydd angen help gydag unedau Mathemateg Bellach penodol yn unig. furthermaths.wales/cy/cy-teachers/cy-tuition/

Ymchwil Weithredol

Cyswllt Cwricwlwm Mathemateg TGAU a Safon Uwch

Effaith ystyried cysylltiadau mathemategol yn benodol wrth gynllunio.

Meddalwedd Dynamig

Defnyddio meddalwedd deinamig o fewn ac allan o'r ystafell ddosbarth.

Aml-Ymyriad

Effeithiau cydgyssylltiedig pecyn gyfoethogi mathemateg.

Delweddu Ystadegau

Effaith meddalwedd gweledol ar ddysgu ystadegaeth.

Dull Ystafell Ddosbarth Wyneb i Waered

Effaith y dull pan fydd amser cwricwlwm yn brin. Arfer gorau'r dull.

Dysgu Proffesiynol AM DDIM

Unedau Mathemateg Bellach

Yn cynnwys pob uned. Hefyd cyrsiau sy'n canolbwyntio ar bynciau. **Gan gynnwys deunyddiau hunan-astudio.**

Unedau Mathemateg

Yn cynnwys pob uned. **Gan gynnwys deunyddiau hunan-astudio.**

Mathemateg Ychwanegol

Yn dod yr haf yma. Yn gysylltiedig â chwrs Desmos.

TGAU Uwch

Ar gyfer athrawon nad yw mathemateg yn brif bwnc iddynt.

Meddalwedd Dynamig

Cyrsiau Geogebra a Desmos.

Addysgeg

Ystafell Ddosbarth Wyneb i Waered, dysgu cyfunol, cysylltiadau.

Cynhadledd AChAM

Arloesedd a Chreadigrwydd mewn Addysgu Mathemateg.

Adnoddau AM DDIM

Cynllun Gwaith Mathemateg a Mathemateg Bellach Safon Uwch

Popeth sydd ei angen arnoch i gynllunio a darparu adnoddau ar gyfer eich darpariaeth Mathemateg a Mathemateg Bellach.

Meddalwedd deinamig Geogebra

I'w rhyddhau dros yr ychydig fisoedd nesaf, gan gwmpasu Mathemateg a Mathemateg Bellach gyfan.

Fideos Wyneb i Waered

Yn cynnwys holl Fathemateg a Mathemateg Bellach gyda PowerPoints ar gyfer gwneud eich nodiadau eich hun a nodiadau Gap.

Fideos Adolygu

Yn cynnwys holl Fathemateg a Mathemateg Bellach.

Cwricwlwm i Gymru

Roedd dau o'n tîm yn gynghorwyr arbenigol i MDPH M a Rh. Gweithgareddau cyfoethogi ac adnoddau cysylltiedig er mwyn gweithredu.

Meddalwedd deinamig Desmos

Cwrs Mathemateg Ychwanegol llawn a mwy i ddod...

Cyfoethogi CA4, TGAU a Safon Uwch AM DDIM

Cynlluniau Peilot Cynradd

Sesiynau yn yr ysgol i danio chwilfrydedd mathemategol.

Ciwb Mathemateg

Sesiynau yn yr ysgol i danio chwilfrydedd mathemategol.

Gyrfaoedd mewn Mathemateg

Cyflwyniadau yn yr ysgol yn dangos yr ystod o waith sy'n ymwneud â mathemateg.

Cyflwyniad i Ddatrys Problemau, STEP a MAT

Datrys problemau tuag at arholiadau mynediad prifysgol.

Datrys Problemau

Datrys problemau i gefnogi'r cwricwlwm cyffredinol.

Cynadleddau Myfyrwyr a Dosbarthiadau Meistr

I bwysleisio y gall mathemateg fod yn hwyl ac yn heriol. Cynhelir mewn prifysgolion ledled Cymru.

Sesiynau Adolygu

Sesiynau adolygu hanner diwrnod ar gyfer pob Uned Mathemateg Bellach. Ar gael i bob myfyriwr ac athro.

Mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn Gyhoeddwr yr Ymddiriedir ynddo i Hwb.